



Ysgol Pentreuchaf

17. Polisi Asesu Risg

Nod

Unodi unrhyw risgiau posibl i disgyblion, staff, ymwelwyr ac unrhyw oedolion eraill o fewn a thu allan i'r ysgol. Dilyn argymhellion dogfen Cynulliad Cenedlaethol Cynru 1999 – Iechyd a Diogelwch Disgyblion ar Ymweliadau Ysgol.

Amcanion

Penderfynu pa mor debygol yw'r sefyllfa sy'n cael ei hasesu o arwain at niwed neu ddifrod a beth yw'r goblygiadau tebygol pe byddai'r sefyllfa sy'n cael ei hasesu yn arwain at niwed neu ddifrod.

Canllawiau

1. Defnyddio templad yr AALI i bob sefyllfa ble mae Asesiad Risg yn angenrheidiol, (cawn restr gyflawn gan yr AALI, a byddwn yn cynnwys ambell un ychwanegol) gan ddilyn eu cyfarwyddiadau. Gan fod Cyngor Gwynedd yn bwriadu dilyn 'HSG65' teclyn rheoli iechyd a diogelwch yn llwyddiannus, bydd yn rhaid i'r holl adrannau ddefnyddio un math o asesiad risg. Felly mae'n rhaid ail-wneud pob asesiad sydd gennym yn barod (80 ohonynt) gan ddilyn y fformat newydd isod.

Ar gyfer cwblhau colofnau A & B yn yr asesiad risg dylid dewis y disgrifiad sy'n cyfateb orau i'r sefyllfa yr ydych yn ei hasesu a rhoi'r radd berthnasol yn y golofn briodol.

A ASESIAD RISG DOSBARTHIAD LLYMDER Y PERYGL			B ASESIAD RISG DOSBARTHIAD TEBYGOLIAETH		
TRYCHINEBUS	(1)	Colled nifer o fywydau oherwydd anaf neu afiechyd galwedigaethol, unai ar unwaith neu'n ohiriedig. Niwed i weithfa neu gyfarpar yn achosi oedi'n hirach na 7 diwrnod.	BRON YN SICR	(A)	Effaith sy'n codi yn sgil perygl sydd bron yn sicr i gael ei gyfarfod, yn seiliedig ar farn a phrofiad, a lle mae'n bosib, wedi'i gefnogi gan ystadegau prosiect neu ddigwyddiad.
DIFRIFOLDEB UCHEL	(2)	Colled un bywyd oherwydd anaf neu afiechyd galwedigaethol, unai ar unwaith neu'n ohiriedig. Niwed i weithfa neu gyfarpar yn achosi oedi rhwng 1 a 7 diwrnod.	TEBYGOL IAWN	(B)	Effaith sy'n codi yn sgil perygl sy'n debygol iawn o gael ei gyfarfod, yn seiliedig ar farn a phrofiad, a lle mae'n bosib, wedi'i gefnogi gan ystadegau prosiect neu ddigwyddiad.
DIFRIFOL	(3)	Anaf adroddiadwy, afiechyd neu ddigwyddiad peryglus yn unol â RIDDOR Niwed i weithfa neu gyfarpar yn achosi oedi hyd at 1 diwrnod.	TEBYGOL	(C)	Effaith sy'n codi yn sgil perygl sy'n debygol o gael ei gyfarfod, yn seiliedig ar farn a phrofiad, a lle mae'n bosib, wedi'i gefnogi gan ystadegau prosiect neu ddigwyddiad.
DIFRIFOLDEB ISEL	(4)	Anaf mân. Collwyd dim amser gwaith neu dychwelodd y person i'w gwaith yn ystod y sifft ar ôl triniaeth. Tydi niwed i weithfa neu gyfarpar ddim yn achosi oedi arwyddocaol.	ANNHEBYGOL	(D)	Effaith sy'n codi yn sgil perygl sy'n annhebygol o gael ei gyfarfod, yn seiliedig ar farn a phrofiad, a lle mae'n bosib, wedi'i gefnogi gan ystadegau prosiect neu ddigwyddiad.
			ANNHEBYGOL IAWN	(E)	Effaith sy'n codi yn sgil perygl sy'n annhebygol iawn o gael ei gyfarfod, yn seiliedig ar farn a phrofiad, a lle mae'n bosib, wedi'i gefnogi gan ystadegau prosiect neu ddigwyddiad.

Llymder y Perygl Tebygoliaeth	(1) TRYCHINEBUS	(2) DIFRIFOLDEB UCHEL	(3) DIFRIFOL	(4) DIFRIFOLDEB ISEL	Indecs Risg	Ffactor Risg	Côd Lliwa\ a
	(A) BRON YN SICR	1A	2A	3A	4A	1A, 1B, 1C, 2A, 2B, 3A	UCHEL EITHRIADOL
(B) TEBYGOL IAWN	1B	2B	3B	4B	1D, 2C, 2D, 3B, 3C	UCHEL	
(C) TEBYGOL	1C	2C	3C	4C	1E, 2E, 3D, 3E, 4A, 4B	CYMEDROL	
(D) ANNHEBYGOL	1D	2D	3D	4D	4C, 4D, 4E	ISEL	
(E) ANNHEBYGOL IAWN	1E	2E	3E	4E			

3. Cwblhau **Matrics Asesu Risg** a dilyn y camau i'w cymryd.

Asesiad o :		Aseswr:		Dyddiad yr asesiad:	
Perygl		Arwyddwyd :		Dyddiad i'w adolygu :	
Math/Effaith Risg	Risg Cychwynnol A+B	Dulliau Rheoli		Risg gweddilliol A+B	

Nodiadau ar gyfer gweithredu	Cwblhau gan	Cwblhau erbyn
•		
•		

Risg = A (Goblygiadau tebygol pe byddai niwed, anaf neu ddifrod yn digwydd) + **B** (Tebygolrwydd o niwed neu anaf yn deillio o'r sefyllfa) **Gweler nodiadau mewn perthynas â diffinio A & B ar y daflen**

- Trafod effeithiolrwydd y trefniadau sy'n bodoli ar hyn o bryd.
- Rhaid i holl staff yr ysgol dderbyn cyfrifoldeb am ddiogelwch a hysbysu'r pennaeth neu'r pennaeth cynorthwyol o unrhyw risgiau posibl a ddaw i'w sylw. Yn y pen draw, y pennaeth sy'n gyfrifol, ond rhaid i drefnydd pob ymweliad (sef yr athrawes ddo-barth fel arfer) gynllunio'r ymweliad a sicrhau fod pob asesiadau risg angenrheidiol wedi ei gwblhau. (Gweler Polisi Ymweliadau Addysgol a Rheoli Risg).
- Bellach, mae'n rhaid cwblhau Asesiad Risg ar unrhyw berson o dan 18 oed sy'n gweithio yn yr ysgol, ar brofiad gwaith (e.e. o Goleg Meirion Dwyfor neu o Ysgolion Uwchradd). Gall rhain fod yn Asesiadau wedi eu cwblhau'n rhannol neu'n llawn gan Hyfforddiant Gwynedd, Coleg Meirion Dwyfor a.y.y.b.
- Rhaid i bob Asesiad Risg cyfredol gael ei adolygu'n flynyddol – y pennaeth fydd yn gwneud hyn, ac yn hybysu'r Corff Llywodraethol. Bydd hefyd yn eu hysbysu os oes newidiadau sy'n creu Risg Uchel, neu unrhyw sefyllfa oedd newydd sy'n y categori Risg Uchel. Yn aml, ni fydd newidiadau, ond rhaid sicrhau fod pob Asesiad yn gyfredol a defnyddiol

Casgliad

Er gwaetha'r nifer uchel o Asesiadau Risg sydd gennym, mae'n holl bwysig ein bod yn cyflawni'r uchod i sicrhau diogelwch y plant sydd yn ein gofal, ac unrhyw oedolion.

Adolygir: Ionawr 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____